Cofnodion **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2016 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd

Nodiadau	**Gweithredu**
PRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-lywydd; Laurie Pavelin, Trysorydd; Carol Bell, Darpar Is-lywydd; Carys Howell; Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Jessica Seaston; Rachel Hughes; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Steph Mastoris, Cyfarwyddwr Gweithredu Dros Dro; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol; Judith Ingram, Pennaeth Polisi a Chynllunio; ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa. **HEFYD YN BRESENNOL:** Kate Clark, Prif Weithredwr Cadw, a'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, a Lesley-Anne Kerr, yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, fel sylwedyddion.	
1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU 1.1 Croesawyd yr aelodau, Kate Clark a Lesley-Anne Kerr i'r cyfarfod. Croesawyd Carys Howell, Jessica Seaton a Rachel Hughes i'w cyfarfod cyntaf fel Ymddiriedolwyr a oedd newydd eu penodi. Croesawyd Carol Bell i'w chyfarfod cyntaf fel Darpar Is-lywydd. Daeth John Morgan i'r cyfarfod fel aelod o'r cyhoedd i weld y trafodaethau. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Kay Andrews, Keshav Singhal, Robert Pickard a Tony Atkins.	
Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod penodi Ymddiriedolwyr, y Rhaglen Newid, Cynllunio Ariannol a Sganio'r Gorwel a chawsant eu briffio arnynt. ***Wedi hynny, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.***	
2 COFNODION 5.1 <u>Penderfynwyd:</u> Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2015.	
3 MATERION YN CODI o gofnodion 17 Rhagfyr 2015 3.1 4.6 Grant Caffael Sbesimenau – Roedd yr Amgueddfa'n dal mewn trafodaethau gyda'r Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) ynghylch cadw grant yr Amgueddfa. 3.2 10.4.2 Pennaeth Ymchwil – Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod Bella Dicks wedi'i phenodi. Byddai'n dechrau yn ei gwaith ar 31 Mai 2016.	

Nodiadau	Gweithredu
4 DYRANIAD ARIANNOL 2016/17 4.1 Adroddwyd: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod y Llywodraeth yn bwriadu gostwng cyllideb yr Amgueddfa 4.7%. Fel y soniwyd uchod, mae MALD wedi cadw'r Grant Caffael Sbesimenau. 4.2 Roedd yr Amgueddfa'n dymuno rhoi'r gorau i Daliadau Premiwm, ac arbed arian trwy leihau costau staff, a newid amserau a dyddiau agor amgueddfeydd. Roedd cynlluniau manwl yn cael eu paratoi er mwyn gwneud yr arbedion sylweddol anghenrheidiol yr oedd gofyn eu gwneud yn y tair blynedd nesaf. Cafodd y cynlluniau hyn eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Bwrdd yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod. 4.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	
5 CYNLLUN PENSIWN 5.1 **Newidiadau i'r Cynllun Pensiwn** 5.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. 5.1.2 Adroddwyd: Bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am yr adolygiad yn unol â gofynion y Trysorlys. Roedd yr Ymddiriedolwyr Pensiynau wedi cymeradwyo'r newidiadau ym mis Chwefror 2016 ac roeddent yn gwneud eu hargymhelliad i Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa yn awr. Pan fyddai'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r Cynllun diwygiedig, byddai'r Amgueddfa'n hysbysu Llywodraeth Cymru. 5.1.3 Nododd yr aelodau bod Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi ystyried y cynlluniau yn fanwl iawn. Croesawyd y broses ymgynghori drwyadl, gynhwysol a maith. Diolchwyd i Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn a'r staff am eu diwydrwydd a'u gwaith manwl. 5.1.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y Cynllun Pensiwn newydd yn cael ei gymeradwyo. 5.2 **Newidiadau mewn Buddsoddiadau** 5.2.1 Adroddwyd: Adroddodd y Llywydd bod y Bwrdd wedi ystyried yr eitem hon ar 16 Mawrth 2016, gan fod Cadeirydd y Cynllun Pensiwn ac Ymddiriedolwr Amgueddfa Cymru, Robert Pickard, yn absennol o gyfarfod heddiw. Rhoddodd Robert Pickard esboniad manwl o'r polisi a'r syniadaeth y tu ôl i'r newidiadau arfaethedig i'r Strategaeth Fuddsoddi a'r Egwyddorion Buddsoddi. Nododd yr Ymddiriedolwyr bod yr Ymddiriedolwyr Pensiynau wedi cynnal adolygiad manwl ac eang, ac roeddent yn hapus i gymeradwyo eu hargymhellion. Diolchodd y Llywydd i Robert Pickard, yr Ymddiriedolwyr Pensiwn a'r staff am eu diwydrwydd. 5.2.2 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y newidiadau i'r Strategaeth	

Nodiadau	Gweithredu
Fuddsoddi yn cael eu cymeradwyo. 5.3 **Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi** 5.3.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. 5.3.2 Adroddwyd: Fel y nodwyd yn 5.2.1 uchod, adroddodd y Llywydd fod y Bwrdd wedi ystyried yr eitem hon hefyd ar 16 Mawrth 2016. 5.3.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod y newidiadau i'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi yn cael eu cymeradwyo.	
DIWEDDARIAD AR BROJECT 'CREU HANES' SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU 6.1 Adroddwyd: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol bod y project yn dal yn arwydd o waith blaengar Amgueddfa Cymru fel Amgueddfa Genedlaethol. Roedd Pennaeth newydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Richard Bellamy, wedi bod yn y cyfarfod safle ac wedi cael ei dywys o gwmpas y safle. Dywedodd ei fod yn 'broject pwysig ac arwyddocaol i'r Deyrnas Unedig'. Cyfeiriodd at ymrwymiad yr Amgueddfa i gyflawni'r project er lles Cymru. 6.2 Nododd yr Aelodau yr oedi a fu ac mai tua dechrau 2018 yr oedd bwriad i'w agor erbyn hyn. Roedd y gwaith caffael ar gyfer gosod yr arddangosfeydd wedi dechrau. Soniodd Victoria Provis, Cadeirydd y Bwrdd Datblygu, wrth yr Aelodau am hynt y gwaith codi arian. Nododd Haydn Edwards fod Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan yn cefnogi'r Bwrdd Datblygu a'r staff. Roedd Archwilwyr Mewnol yr Amgueddfa wedi cynnal archwiliad yn ddiweddar o'r ffordd roedd y project yn cael ei reoli. Roedd ei ganfyddiadau'n gadarnhaol iawn a chyfeiriwyd at y Gofrestr Risgiau fanwl. 6.3 Nododd yr Aelodau y cynnydd yn y gyllideb hefyd, ac effeithiau'r ailddatblygiad ar lefelau cyfredol yr incwm a nifer yr ymwelwyr. 6.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	
7 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL 7.1 **Briffiad Chwarterol Chwarter 3; Materion Cyfredol** 7.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 7.1.2 Adroddwyd: Adroddodd y Pennaeth Polisi a Chynllunio ar uchafbwyntiau'r adroddiad, yn cynnwys ffigurau ymwelwyr, ymweliadau addysg ffurfiol, ymweliadau â'r wefan a'r cynnydd o'i gymharu â Map y Weledigaeth a'r Amcanion Galluogi. 7.1.3 Nododd yr Aelodau bod Adroddiad Terfynol Gwerthusiad o Flwyddyn Beilot y Rhaglen Ardaloedd Arloesi wedi'i gyhoeddi. O ganlyniad i'r hyn a ganfuwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn y rhaglen o flwyddyn ac fe gaiff hyd at	

Nodiadau	Gweithredu
bedair Ardal Arloesi newydd eu creu. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod hwn yn arolwg arwyddocaol o'r maes a'r Ardaloedd Arloesi ac y byddai'n cefnogi gwaith yr Amgueddfa mewn meysydd gwaith eraill. Roedd yr Amgueddfa'n dod i gael ei chydnabod yn arbenigwr yn y maes hwn gyda Chymunedau yn Gyntaf a ledled y Deyrnas Unedig. O ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), byddai'r gwaith yn effeithio ar ddealltwriaeth Cymru o swyddogaeth diwylliant a threftadaeth. Diolchodd yr Amgueddfa unwaith eto i MALD am y gefnogaeth a gafodd. 7.1.4 Nododd yr Aelodau y gwaith yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau i gael ystafell ddosbarth hirdymor yn yr amgueddfa. Mae hyn yn rhan o broject ymchwil newydd gyda Choleg y Brenin, Llundain. Dechreuodd y project yn gynharach eleni ac, yn ôl yr arwyddion cynnar, mae'r plant yn elwa o'r profiad o 'ddod i'r ysgol' yn yr amgueddfa. Mae Amgueddfa Cymru'n cynnig amgylchedd dysgu cyfoethog sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad plant. 7.1.5 <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny a nodwyd yr adroddiad. 7.2 **Diweddariad ar Gynllun Strategol 2016-19** 7.2.1 <u>Adroddwyd:</u> Adroddodd y Pennaeth Cynllunio a Pholisi bod y gwaith o ddatblygu'r cynllun yn parhau. 7.2.2 <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny, a bod y Cynllun terfynol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad ym mis Mai 2016 ac, os câi ei gymeradwyo, byddai'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.	Pennaeth Polisi a Chynllunio
8 COFNODION DRAFFT GWAHANOL GYFARFODYDD 8.1 <u>Derbyniwyd a Nodwyd:</u> Cofnodion drafft: 8.1.1 Mentrau AOCC Cyf 28 Ionawr 2016 8.1.2 Pwyllgor Archwilio 9 Chwefror 2016 8.1.3 Ymddiriedolwyr Pensiwn 10 Chwefror 2016 8.1.4 Pwyllgor Adolygu Perfformiad 11 Chwefror 2016 8.1.5 Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru 3 Mawrth 2016 8.2 <u>Adroddwyd:</u> Bod cais wedi'i wneud i Gynllun Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru ar gyfer Mentrau AOCC. Nododd yr Aelodau ei bod yn bwysig sicrhau bod perfformiad y ddarpariaeth arlwyo allanol yn cael ei fonitro'n drwyadl. Soniodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wrth yr Ymddiriedolwyr am y gyfres o gyngherddau piano rhyngwladol, gyda thocynnau, oedd i'w chynnal yn Narlithfa Reardon Smith, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd. 8.3 O ran y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor fod y Pwyllgor wedi argymell bod is-grŵp yn cael ei sefydlu i gefnogi'r Uwch Dîm Rheoli yn ei waith ar y Cynllun Arbedion. Roedd yr aelodau'n cynnwys Laurie Pavelin yn y Gadair, Glenda Jones fel aelod o'r Pwyllgor, Carol Bell fel Darpar	

Nodiadau	Gweithredu
Is-lywydd, a Haydn Edwards fel yr Is-lywydd presennol. Byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ôl yr angen a byddent yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad ac, yn ôl yr angen, i'r Bwrdd. 8.4 O ran penodi Ymddiriedolwyr i Bwyllgorau ac i grwpiau, argymhellodd y Llywydd bedwar penodiad newydd. 8.5 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod risg yn cael ei ychwanegu at y Gofrestr Risgiau o ran perfformiad Elior, yr arlwywyr allanol. Bod Is-grŵp y Pwyllgor Adolygu Perfformiad yn cael ei gymeradwyo. Bod Carol Bell yn cael ei phenodi i'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau. Bod Carys Howell yn cael ei phenodi i Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan. Bod Jessica Seaton yn cael ei phenodi i Fwrdd Mentrau AOCC Cyf. Bod Rachel Hughes yn cael ei phenodi i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad.	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol / Uwch Dîm Rheoli / Ysgrifennydd yr Amgueddfa
9 UNRHYW FATER ARALL 9.1 Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod y Museums Journal wedi adrodd yn ddiweddar bod nifer o amgueddfeydd cenedlaethol Llundain wedi gweld gostyngiad sylweddol yn eu ffigurau ymwelwyr. Roedd hyn yn wahanol i ffigurau ymwelwyr Amgueddfa Cymru a oedd wedi dal yn sefydlog.	
DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF: Penderfynwyd: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9am ar 30 Mehefin 2016 yn Ystafell y Glannau, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe.	